

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Cydlynydd Coedyddiaeth

## Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



DAVID COOIL
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.


Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.




# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.



- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**

# Teitl y swydd: Cydlynydd Coedyddiaeth



Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth? Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi. Rydym yn chwilio am Cydlynydd Coedyddiaeth i ymuno â thîm cyffrous sy'n tyfu.

**Cyflog:** PS4 (SCP 35-37) £43,421 - £45,441

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** **Gweithio Hybrid** o un or swyddfeydd isod:

Drenewydd/Llandrindod/Aberaeron/Bangor/Conwy/Dolgellau/Helygain

**Dyddiad cau:** 22/02/2024

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Bydd y Cydlynydd Coedyddiaeth yn gyfrifol am reoli'r coed, y coetiroedd a'r gwrychoedd ar y rhwydwaith cefnffyrdd yn rhanbarthau Gogledd a Chanolbarth Cymru, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, rheoli rhaglen o arolygon diogelwch coed (gan gynnwys archwiliadau coed ynn) ar hyd cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, yn ogystal a rheoli agwedd gwaith y broses A154 (Deddf Priffyrdd 1980). Cydlynu'r rhaglen plannu a chynnal a chadw coed, gan gynnwys coed stryd, bod yn gyfrifol am weithredu ac adolygu strategaeth diogelwch coed ACGChC a dogfennau polisi'n ymwneud â choed yn y llawlyfr ystâd feddal ac amgylcheddol, yn ogystal a darparu arbenigedd technegol ar gyfer y system rheoli diogelwch coed (Ezytreev ar hyn o bryd).

Gweithredu fel rheolwr llinell tîm o Swyddogion Coedyddiaeth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru, sefydlu, cydlynu a rheoli rhaglenni gwaith ar gyfer cynnal a chadw coed, coetiroedd, gwrychoedd a stadau meddal cysylltiedig a wneir gan ddarparwyr gwasanaethau, ac rheoli amrywiaeth o brosiectau er enghraifft gweithredu atebion sy'n seiliedig ar natur. Cefnogi Tîm Amgylcheddol ACGChC i reoli ystâd feddal cefnffyrdd Llywodraeth Cymru a darparu cyngor neu hyfforddiant cyffredinol ar goedyddiaeth a rheoli ystâd feddal i staff ACGChC, yn ogystal a chysylltu â thimau gweithrediadau rhwydwaith gyda materion yn ymwneud â choed ar y rhwydwaith.



# Cyfrifoldebau

- Arwain ar bob agwedd o reoli coed, coetiroedd a gwrychoedd a chyflwyno'r gwasanaeth coedyddiaeth ar draws ardal Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ACGCC i sicrhau y darperir gwasanaeth effeithiol, effeithlon a chyson ar draws y rhwydwaith ffyrdd strategol, yn unol â gofynion Cytundeb Asiantaeth Rheoli Llywodraeth Cymru (WAGMAA) a'r Llawlyfr Cynnal a Chadw (WGTRMM).

- Rheoli rhaglen o archwiliadau systematig ar goed a choetiroedd ar hyd y Rhwydwaith Cefnffyrdd yn unol â gofynion Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru (WGTRMM).

- Trefnu a rheoli rhaglen o arolygon diogelwch coed yn unol â'r gofynion asesu yn Atodiad A y Matrics Risg Diogelwch Coed a Llawlyfr Ystâd Feddal a'r Amgylchedd LlC.

- Trefnu a rheoli rhaglen o arolygon clefyd coed ynn yn unol â gofynion Llawlyfr Ystâd Feddal a'r Amgylchedd LlC.

- Cynorthwyo gyda'r gwaith o ddylunio a gweithredu rhaglen o blannu coed (coed stryd, creu coetir, plannu gwrychoedd ac ati), a hynny i gynnwys cynnal a chadw.

- Rheoli agwedd waith y broses A154 (Deddf Priffyrdd 1980) ar gyfer ymdrin â choed peryglus ar dir preifat Siarad â chysylltu â chontractwyr, rhoi cyngor a goruchwyliaeth fel bo'r angen.
- 
- Sefydlu a rheoli rhaglen o arolygon ac archwiliadau o'r coetiroedd, lleiniau wedi'u plannu a'r categorïau ENVIS sy'n gysylltiedig â choetiroedd o fewn yr ystâd feddal. Argymell, gweithredu, a rheoli cofnodion y rhain i sicrhau y cyflawnir yr amcanion rheolaeth a chadwraeth coetiroedd yn unol â swyddogaethau LlC.

- Sicrhau bod cyfyngiadau a allai effeithio ar reolaeth coed neu goetiroedd megis rhywogaethau a warchodir, safleoedd neu ddynodiadau megis SoDdGA, Gorchmynion Gwarchod Coed neu Ardaloedd Cadwraeth, yn cael eu hadnabod, a sicrhau y dilynir proses er mwyn trefnu'r arolygon, ymgynghoriadau a'r ceisiadau angenrheidiol am ganiatâd ac ati, cyn y gwaith.

- Cefnogi datblygiad a gweithrediad strategaeth newid hinsawdd ACGCC.

- Cefnogi a datblygu'r defnydd o ddatrysiadau sy'n defnyddio natur, e.e. Systemau Draenio Cynaliadwy, rheoli llifogydd yn naturiol, cyfrifo carbon.

- Arwain ar ddylunio a gweithredu rhaglenni rheoli ar gyfer gwaith ystâd feddal yn unol â chynlluniau rheoli amgylcheddol Llywodraeth Cymru, y Design Manual for Roads and Bridges (DMRB), gofynion deddfwriaethol ac arfer dda.

- Cynghori'r Uned Cyflawni ac Archwilio a darparwyr gwasanaeth wrth ddylunio a gweithredu prosiectau gwelliannau cyfalaf pwrpasol, gan gynnwys rhaglenni gwaith ar gyfer goleuadau stryd, strwythurau, carthffosiaeth a gwaith geo-dechnegol, a sicrhau bod coed yn cael ystyriaeth ddigonol ac yn derbyn gwarchodaeth addas i'r gwreiddiau ac ati.

- Sicrhau bod materion Iechyd a Diogelwch yn derbyn ystyriaeth lawn ac yn cael eu rheoli ym mhob agwedd o waith yr Asiantaeth.




## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i'r swydd

Yr ydym yn chwilio am berson sydd a sgiliau arweinyddiaeth, yn gallu gweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol, sgiliau gwneud penderfyniadau a negodi, yn ogystal a sgiliau ysgrifennu adroddiadau a chyflwyno da.  Y gallu i'ch ysgogi eich hun, brwdfrydedd ac ymrwymiad, lefel uchel o sgiliau rhyngbersonol, ac yn berson gonest.

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

Chwilio am berson sydd a Lefel 4 (neu gyfwerth) mewn Coedyddiaeth/Coedwigaeth Drefol neu faes arbenigol perthnasol arall, ynghyd â phrofiad proffesiynol perthnasol sylweddol A pharodrwydd i gwblhau lefel 6 (neu Gyfwerth) mewn Coedyddiaeth/Coedwigaeth Drefol o fewn 3 blynedd o'ch penodi (ariennir hyn)

NEU

Gradd / lefel 6 mewn rheolaeth Coedyddiaeth / Coedwigaeth Drefol neu Radd mewn maes arbenigol perthnasol arall, ynghyd â llawer o brofiad proffesiynol perthnasol.

## Profiad perthnasol

Profiad o helaeth mewn Coedyddiaeth a'r gwaith o reoli coed, coetiroedd, a choed trefol yn cynnwys diogelwch coed, coed stryd, plannu coed a chreu coetiroedd. Profiad sylweddol o reoli staff / tîm yn ddelfrydol gan gynnwys rheoli timau o bell / gwasgaredig.  Ysgrifennu adroddiadau, cynlluniau rheoli, strategaethau, llawlyfrau ac ati.  Profiad o ymdrin yn effeithiol â chyfyngiadau sy'n ymwneud â choed e.e. diogelu coed a materion ecolegol mewn perthynas â gwaith gofynnol / arfaethedig.  Profiad o weithio gyda systemau rheoli coed a'r amgylchedd, e.e. Ezytreev.  Profiad o weithredu a gorfodi deddfwriaeth a rheoliadau Ewropeaidd a'r DU. Profiad o ddatblygu rhaglenni gwaith amgylcheddol. Comisiynu a goruchwylio amrywiaeth o astudiaethau, arolygon a chynlluniau rheoli ecolegol neu rai sy'n ymwneud â choed. Profiad o ymdrin ag ystod eang o randdeiliaid cefnffyrdd, gan gynnwys, er enghraifft, cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus a phreifat eraill, tirfeddianwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Profiad o reoli cyllidebau.

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

Sgiliau rheoli coed trefol, rheoli coetir a diogelwch coed, arbenigedd amgylcheddol ac ecolegol. Gwybodaeth helaeth am reoliadau a deddfwriaeth amgylcheddol Ewropeaidd a'r DU, yn llythrennog mewn TG, yn ogystal a ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch.  Mae'n hanfodol i gael trwydded yrru llawn ac y gallu i deithio i lleoliadau anghysbell.

## Gofynion ieithyddol

Mae'r gallu i siarad Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a



- 27 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio’n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.
- Oriau gweithio hyblyg.




- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o  wybodaeth ar  wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.



- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i’r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!



- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith



- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.